Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned a Thref Arweiniad Digidol

## Arfer Da ar gyfer Gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Medi 2024

# Cynnwys

Rhagymadrodd ..... 3
Manteision ..... 6
Ystyriaethau Achos Busnes ..... 7
  Costau ..... 7
  Adenillion Ariannol Posibl ..... 7
Gweithredu ..... 8
  Asesu ..... 8
  Cynllun ..... 8
  Defnyddio ..... 9
  Rheoli a Monitro ..... 10
  Gwerthuso ..... 10
Hanes Fersiwn ..... 10

## Rhagymadrodd

Mae gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref yn chwarae rhan hanfodol wrth ymgysylltu â thrigolion, lledaenu gwybodaeth, a meithrin tryloywder. Gallant hefyd fod yn llwyfan i hyrwyddo'r gymuned yn lleol ac yn ehangach. Mae gwefan yn arf hanfodol ar gyfer llywodraethu modern, yn gwella cyfathrebu, tryloywder a gwneud y gymuned yn rhan o bethau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun statudol ar gyfer gwefannau Cynghorau Cymuned a Thref. Mae hefyd yn ystyried manteision ehangach y defnydd o dechnoleg gan Gynghorau Cymuned a Thref

Mae Adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gael gwefannau y gallant gyhoeddi hysbysiadau a phapurau yn electronig arnynt. Fodd bynnag, gan fod cryn amser wedi mynd heibio ers sefydlu’r gofyniad hwn, mae llawer o gynghorau yn ystyried adnewyddu eu gwefannau neu greu rhai newydd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar y pethau sydd angen eu hystyried wrth ddefnyddio gwefan newydd.

## Yr Amgylchedd Rheoleiddiol a Deddfwriaethol

Rhaid i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gadw at nifer o filiau a rheoliadau allweddol sy'n sail i'r defnydd o wefannau.

Mae'r rhain yn cynnwys:
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 : sy'n gosod gofynion ar gyfer darparu mynediad cyhoeddus i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 **:** sy'n rhoi manylion am gyhoeddiadau ar-lein a gwefannau fel yr amlinellir isod

Deddf Diogelu Data 2018 : sy'n gosod gofynion ar gyfer diogelu data personol.

Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) 2018 a Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 **:** sy'n pennu gofynion hygyrchedd. Rhaid i gynghorau gyhoeddi datganiad hygyrchedd ar eu gwefan a'i adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau cydymffurfiaeth.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 : sy'n gosod gofynion ar gyfer hyrwyddo tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddulliau digidol.

Dylai cynghorau hefyd ystyried Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ar hyn o bryd nid yw safonau'r Gymraeg yn weithredol i gynghorau cymuned a thref ond dylai cynghorau ystyried sut y maent yn cefnogi statws swyddogol y Gymraeg fel y'i diffinnir yn y mesur. Yn benodol, os oes gan gyngor Gynllun Iaith Gymraeg, dylai fod yn berthnasol i ddeunyddiau electronig, megis gwefannau, hefyd.

Mae canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, yn benodol ar Adran 55 o'r ddeddf, sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig**.**

Gellir crynhoi'r gofynion a amlinellir yn y canllawiau fel a ganlyn

Gwybodaeth Gyswllt:
Rhaid i gynghorau gyhoeddi eu manylion cyswllt yn electronig, gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post, a chyfeiriad e-bost.
Os nad oes gan y cyngor swyddfa, rhaid darparu manylion cyswllt y clerc.

Gwybodaeth am Aelodau:
Rhaid i gynghorau gyhoeddi gwybodaeth am bob aelod etholedig, gan gynnwys eu henw, manylion cyswllt, ymlyniad wrth blaid (os o gwbl), ac unrhyw swydd neu aelodaeth ar bwyllgor.
Os rhennir y cyngor yn wardiau, rhaid nodi'r ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.
Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng aelodau cyfetholedig ac aelodau etholedig.

Cofnodion a Dogfennau Cyfarfod:

Rhaid i gynghorau gyhoeddi cofnodion eu cyfarfodydd a, lle bo’n ymarferol, dogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny.
Rhaid cyhoeddi cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig hefyd.

Hysbysiadau Cyhoeddus:
Rhaid i gynghorau gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig yn ogystal â dulliau traddodiadol.
Rhaid cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd sydd i ddod yn electronig o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod.

Cofrestr o Fuddiannau Aelodau:
Rhaid i gynghorau gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau ariannol a buddiannau eraill aelodau yn electronig.

## Manteision

Nod y rheoliadau ynghylch gwefannau cynghorau cymuned a thref yw sicrhau bod cynghorau yn dilyn arfer da wrth wasanaethu a chynrychioli eu cymunedau.

Bydd gwefannau hygyrch sydd wedi'u dylunio'n dda yn darparu manteision niferus i gynghorau am fuddsoddiad cymharol fach:

Effeithlonrwydd: Gall gwasanaethau cynghorau cymuned a thref, megis adeiladau cymunedol, rhandiroedd neu fynwentydd fod ar brosesu syml ar-lein drwy wefan y cyngor. Dylai hyn leihau'r baich gweinyddol ar glercod a staff cynghorau.

Tryloywder: Mae gwefan yn darparu llwyfan agored ar gyfer rhannu gwybodaeth am benderfyniadau, polisïau a gweithgareddau. Gall rannu cofnodion cyfarfodydd, manylion cyswllt a hysbysiadau cyhoeddus yn hawdd, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth y trigolion.

Hygyrchedd: Gall trigolion ac eraill gael mynediad hawdd at wybodaeth bwysig unrhyw bryd. Mae hon yn nodwedd gyffredin o fywyd modern sy'n caniatáu i wasanaethau cyhoeddus gydweddu â gwahanol ffyrdd o fyw a phatrymau gwaith.

Cyfranogiad: Mae gwefan sydd wedi'i chynnal yn dda yn rhoi gwybodaeth i drigolion am weithgareddau'r cyngor a gall annog cyfranogiad trwy godi ymwybyddiaeth o gyfarfodydd y cyngor, mynediad at gyfrifon a sefyllfaoedd eraill lle gall aelodau'r gymuned ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyngor.

Ymgysylltu: Gall diweddariadau a chyhoeddiadau rheolaidd hysbysu'r cyhoedd am ddigwyddiadau sydd i ddod, newidiadau mewn gwasanaethau, a newyddion pwysig arall. Mae'r mynediad syml hwn at wybodaeth y cyngor yn galluogi trigolion i ymgysylltu'n fwy â'r cyngor. Gellir defnyddio gwefannau hefyd i hwyluso cyfranogiad y cyhoedd trwy ddulliau megis arolygon a ffurflenni adborth. Gall hyn alluogi'r trigolion i leisio eu barn a'u pryderon.

Yn ogystal â manteision uniongyrchol i weithrediad cyngor, mae llawer o gynghorau yn defnyddio eu gwefannau i hyrwyddo eu hardal leol. Gall hyn gynnwys elfennau megis

Hanes ac agweddau diwylliannol

Twristiaeth a'r Economi ymwelwyr

Busnesau a gwasanaethau lleol

Grwpiau cymunedol

## Ystyriaethau Achos Busnes

Yn ogystal â bod yn help i gydymffurfio â deddfwriaeth fel y nodir uchod, bydd buddsoddi mewn gwefan ymarferol a greddfol yn dod â manteision i weithrediadau'r cyngor. Mae sefydliadau mawr a bach ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn defnyddio eu gwefannau at y dibenion hyn

### Costau

Mae costau nodweddiadol sy'n gysylltiedig â gwefan yn cynnwys

- Ffioedd dylunio a gweithredu
- Ffioedd cynnal
- Ffioedd enw parth
- Tystysgrif SSL
- Ategion ac estyniadau
- Cymorth Technegol
- Adolygiad diogelwch neu hygyrchedd
- Marchnata ac Optimeiddio Peiriannau Chwilio
- Ymdrech i ddiweddaru a chynnal - yn uniongyrchol neu'n allanol

Bydd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu cynnwys yn y tâl gwasanaeth gan ddarparwr gwefan masnachol

### Adenillion Ariannol Posibl

- Effeithlonrwydd gwasanaeth ac arbedion dilynol mewn costau staff
- Llai o ymweliadau corfforol ac ymgysylltu dros y ffôn gan breswylwyr, y wasg a chyrff eraill
- Cymorth i geisiadau am arian grant trwy ddarparu gwybodaeth dryloyw am y cyngor

## Gweithredu

Fel y nodwyd uchod bu'n ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gynnal gwefan ers 2013. Fodd bynnag, bydd llawer o gynghorau yn meddwl am uwchraddio, newid neu adnewyddu eu gwefan ac mae'r canllawiau isod yn nodi rhai ystyriaethau a chamau allweddol. Mae'n dilyn dull safonol o weithredu gwasanaethau digidol fel y dangosir yn y diagram isod.




### Asesu

Dylai cynghorau adolygu eu gwefan i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r amgylchedd rheoleiddio a'r gallu i wasanaethu gweledigaeth y cyngor ar gyfer eu cymuned. Gellid gwneud hyn yn flynyddol fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer archwilio mewnol ac allanol. Bydd archwilwyr yn ystyried cyflwr gwefan y cyngor fel rhan o'u hadolygiad.

Os bydd cynghorau'n penderfynu nad yw eu gwefan yn cyfateb i'w gofynion yna dylid datblygu cynllun adfer.

### Cynllun

Mae tri dull adfer sylfaenol ar gael os bydd cyngor yn penderfynu nad yw ei wefan yn cyfateb i'w ofynion - yn dibynnu ar y materion y mae angen eu datrys.

1 Datrys materion penodol

Dyma fydd y dull gorau o weithredu os bydd y cyngor yn asesu bod ei wefan yn methu o ran gofynion penodol, mwy technegol, megis hygyrchedd neu ddiogelwch.

Bydd angen penderfyniad ynghylch pa gamau all ddatrys y problemau. Gall hyn fod ar gael trwy asesiadau blaenorol (e.e. os oes adolygiad hygyrchedd wedi'i wneud). Efallai y bydd angen ymgynghoriad allanol a chontract i ddatrys y problemau.

2 Diweddaru cynnwys y wefan – a'r broses ar gyfer cynnal cynnwys

Os yw'r cyngor yn asesu bod y cynnwys presennol yn anghywir, yn anghyflawn neu wedi dyddio, yna dylid rhoi cynllun gyda dyddiadau a chyfrifoldeb clir ar waith i ddiweddaru'r cynnwys. Dylid hefyd sefydlu proses ar gyfer cynnal a chadw'r cynnwys yn rheolaidd.

3 Ailgynllunio neu newid Gwefan Lawn

Gellid ystyried hyn os yw'r cyngor yn asesu nad yw ei wefan bresennol yn gwasanaethu gweledigaeth y cyngor.

Fel rhan o gynllunio ar gyfer ailgynllunio neu newid mae angen i gynghorau ystyried yr eitemau canlynol

- Meddyliwch am y rhesymau dros sefydlu gwefan newydd neu wedi'i hailgynllunio nawr.
- Ystyriwch y gyllideb sydd ar gael – gellir dylunio gwefannau ar raddfeydd gwahanol iawn am gostau gwahanol.
- Penderfynwch ar y dull o gaffael a rhedeg y wefan newydd. A yw'r cyngor yn mynd i gomisiynu darparwr allanol neu geisio dylunio a rhedeg y wefan yn fewnol? Mae sawl darparwr gwefannau sy'n arbenigo mewn cynghorau cymuned a thref (a chynghorau plwyf yn Lloegr). Fel arfer bydd gan y darparwyr hyn ddyluniad templed ar gyfer gwefan cyngor a fydd yn cynnwys yr holl agweddau gofynnol. Bydd angen caffaeliad allanol yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor a dylai gynnwys sawl tendr i sicrhau gwerth da.
- Ystyriwch faint o amser staff tebygol a'r amser a aeth heibio sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect

## Defnyddio

Dylai cynghorau sy'n dewis gweithio gyda darparwr allanol dderbyn cynllun prosiect gan eu darparwr yn amlinellu'r camau gosod y byddant yn eu cymryd. Bydd angen i gynghorau sy'n dewis datblygu'r wefan eu hunain reoli'r camau hyn.

Bydd union gamau'r cynllun yn amrywio yn dibynnu ar lefel y dylunio a'r addasu y mae'r cyngor yn gofyn i'r darparwr ei wneud ond a fyddai'n nodweddiadol yn cynnwys cyfnodau megis

Darganfod - Deall gofynion y cyngor o'r wefan, deall defnyddwyr arferol y wefan a'r hyn y bydd y defnyddwyr hynny yn ceisio ei gyflawni trwy ymweld â'r wefan

Dylunio a gwneud prototeip – Creu "fframiau gwifren" neu gynrychioliadau gweledol eraill o'r wefan arfaethedig. Efallai na fydd angen y cam hwn pan fydd darparwr yn defnyddio cynllun dro ar ôl tro y mae wedi'i ddefnyddio ar gyfer cynghorau eraill

Datblygu, profi a llwyfannu - Ysgrifennu unrhyw god sydd ei angen ar gyfer y wefan a diffinio unrhyw integreiddiadau gyda chynhyrchion 3ydd parti. Profi'r eitemau a ddatblygwyd a'u hanfon i safle llwyfannu (hy rhan o'r wefan nad yw wedi'i chyhoeddi ar-lein). Unwaith eto, bydd y cam hwn yn cael ei gyflymu'n sylweddol pan fydd cynllun gwefan yn cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro.

Cynhyrchu - Defnyddio'r safle llwyfannu fel gwefan gynhyrchu “fyw”.

Hyfforddiant - Bydd angen i staff a fydd yn gyfrifol am ddiweddaru'r wefan gyda dogfennau a deunyddiau'r cyngor dderbyn hyfforddiant a dogfennaeth

## Rheoli a Monitro

Rhaid diweddaru gwefannau cynghorau yn rheolaidd gyda'r wybodaeth am weithgareddau'r cyngor fel y nodir uchod. Dylid rhoi prosesau wedi'u dogfennu ar waith i sicrhau bod diweddariadau'n cael eu gwneud o fewn yr amserlenni gofynnol.

Dylai cynghorau fonitro lefel y defnydd o'u gwefan a chwilio am unrhyw gynnydd neu ostyngiad, gan geisio deall pam mae'r newidiadau hyn yn digwydd.

## Gwerthuso

Dylai darparwr y wefan fonitro'r wefan am faterion perfformiad a gwendidau diogelwch fel rhan o'u ffi cymorth parhaus.

Bydd newidiadau yn y defnydd o'r wefan yn rhoi syniad o'r gwerth y mae defnyddwyr y wefan yn ei gael o'r cynnwys.

Dylid ceisio barn trigolion ar y wefan fel rhan o unrhyw adborth neu ymarferion ymgysylltu a gynhelir. Mae'r wefan yn darparu “ffenestr siop” i weithgareddau'r cyngor a dylai fod yn adnodd gwerthfawr i drigolion ac eraill o fewn y gymuned

## Hanes Fersiwn

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 12/11/2024 | Justin Horrell | Fersiwn Cychwynnol | 12/11/25 |
| | | | | |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**